# Adroddiad Arolygu

**Delyth Bryan**

**Hwlffordd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/08/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn adnabod y gwarchodwr plant yn dda. Maent wedi ymlacio yn ei chwmni ac yn mwynhau'r amser y maent yn ei dreulio yn ei gofal.
Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn darparu adnoddau a chyfleusterau priodol i alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â chymarebau a chofnodion er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Mae wedi ymateb i argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd cydweithio â'r rhieni i wneud penderfyniadau am lesiant eu plentyn. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheini drwy negeseuon testun ac e-bost, yn ogystal ag adborth dyddiol pan fydd y plant yn cael eu gollwng a'u casglu.

## Llesiant

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn chwarae â'i gilydd yn hapus. Mae'r plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad o gyflawni rhywbeth a hunan-barch mawr. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Maent yn mwynhau eu hamser yn yr awyr agored yn arbennig, ac yn gallu eistedd a threulio amser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol. Er enghraifft mae'r plant yn falch ac wrth eu bodd pan fyddant yn adnabod lliwiau yn llwyddiannus wrth chwarae. Mae'r plant yn canolbwyntio'n galed wrth ddefnyddio sialc i dynnu llun o gylch ac maent yn mwynhau enwi'r lliwiau a ddefnyddir.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae yn fawr. Mae bron pob un o'r plant yn ymddiddori yn eu gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp. Er enghraifft mae'r plant yn gyffrous iawn wrth iddynt arbrofi â swigod a chwarae yn y babell fach.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu hanghenion yn cael eu hystyried. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain yn dda iawn. Maent yn dewis yr hyn y maent am ei wneud ac yn gwybod y byddant yn cael ymateb cadarnhaol i'w ceisiadau. Er enghraifft, pan fydd y gwarchodwr plant yn gofyn i'r plant a ydynt am gysgu, gall y plant ifanc fynegi eu hunain yn hyderus gan ddefnyddio iaith dieiriau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Maent yn mwynhau canu caneuon am ddiwrnodau'r wythnos, lliwiau a rhifau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn ogystal â'u sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, gall y plant adnabod lliwiau pegiau ac maent yn dangos cydsymud da rhwng y dwylo a'r llygaid, gan agor y pegiau a'u rhoi ar y lein ddillad isel yn llwyddiannus yn annibynnol. Maent hefyd yn enwi lliwiau'r pegiau y maent wedi'u defnyddio.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn chwarae'n rhydd gyda'r adnoddau sydd ar gael, gan symud o un gweithgaredd i'r llall ar ôl cyfnod priodol o amser. Mae'r plant yn cael y cyfle i chwarae dan do, yn yr awyr agored ac yn yr ardal leol, fel y parc. Mae'r plant yn mwynhau chwarae a siarad â'i gilydd yn y babell fach yn arw, ac maent yn enwi lliwiau'r peli yn hyderus. Maent yn mwynhau casglu blodau yn ystod eu teithiau cerdded er mwyn eu gwasgu a'u lamineiddio.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais. Maent yn chwarae ac yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu. Gwnaethant ddangos dychymyg a chydweithio. Maent yn dweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ lle y bo'n briodol.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol iawn ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i'w helpu i ddysgu a datblygu. Er enghraifft mae'n darparu adnoddau naturiol i'r plant, megis dail i'w paentio. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgorffori lliwiau a rhifau yn y rhan fwyaf o weithgareddau.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi diogelu addas ar waith, ond  mae angen ei ddiweddaru. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â materion diogelu, er nad yw ei hyfforddiant ar ddiogelu yn gyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad yn dda iawn. Mae'n rhyngweithio'n effeithiol â'r plant ac yn sicrhau ei bod yn cynnal awyrgylch hamddenol yn ei chartref. Mae'n hyderus ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn dathlu caredigrwydd a chwrteisi. Er enghraifft mae'n canmol y plant am ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch', ac mae hefyd yn dathlu cyflawniadau da. O ganlyniad, mae'n llwyddo i ymdrin â sefyllfaoedd mewn modd amserol. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn gwybod pryd i gamu'n ôl, gan adael i'r plant ddatblygu eu chwarae eu hunain.

Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar, yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion y plant. Mae'n diwallu anghenion personol y plant, er enghraifft drwy newid cewynnau'r plant yn rheolaidd. Mae'r plant yn golchi eu dwylo â dŵr poeth a sebon. Yn ystod yr arolygiad, cyflwynodd y gwarchodwr plant glytiau sychu unigol â system codau lliw i'r plant sychu eu dwylo. Mae hylif diheintio dwylo ar gael yn hawdd. Mae'r gwarchodwr plant yn glanhau'r adnoddau ac yn golchi'r teganau yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio clytiau babanod i lanhau rhai o'r adnoddau.

Mae'r gwarchodwr plant yn paratoi gweithgareddau i feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'n cadw gwaith y plant mewn llyfrau lloffion unigol, sy'n cynnwys gwaith crefft a thystiolaeth o dasgau sy'n meithrin sgiliau echddygol manwl a datblygiad gwybyddol y plant. Fodd bynnag, nid oes gan y gwarchodwr plant system ar waith i gofnodi ac olrhain datblygiad y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn meddu ar wybodaeth a hyfforddiant cyfredol mewn perthynas â chymorth cyntaf. Mae hyn yn ei galluogi i fod yn hyderus o ran ei gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth a ragnodwyd. Mae'n cwblhau ffurflenni damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn briodol.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud ar y cyfan.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn gyfforddus. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau o ansawdd da i'r plant ac maent yn cael budd o ardal awyr agored fawr. Gall y plant fynd allan i ardd ac ardaloedd chwarae yn yr awyr agored. Roedd hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio teganau mawr yn ddiogel.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol boddhaol, er mai asesiadau risg sylfaenol yw'r rhain. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n ddigonol ac mae'n gwybod y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant. Mae gan y gwarchodwr plant yswiriant priodol ar gyfer cludo plant yn ei char. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân misol ac yn cadw cofnod ohonynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw ar waith. Er enghraifft, mae'r boeler wedi cael ei wasanaethu ac mae holl wiriadau angenrheidiol y car wedi'u cwblhau. Mae'r teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r ystafell chwarae yn cynnwys unedau storio a silffoedd, sydd wedi'u labelu.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ystafell chwarae, yr ardal fwyta a'r ardal awyr agored i'r plant yn bennaf. Mae'r plant hŷn weithiau'n defnyddio'r lolfa. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar a theganau ar gael i'r plant sy'n briodol ar gyfer eu hoedran, eu hanghenion a'u cam datblygu. Mae digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft. Mae llyfrau Saesneg a Chymraeg ar gael i'r plant. Mae detholiad eang o gyfarpar ac adnoddau ar gael ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

## Arwain a Rheoli

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i'w harchwilio. Fodd bynnag, nid oes dyddiad arnynt i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu. Mae rhai o'r polisïau yn cynnwys gwybodaeth a dolenni i wybodaeth bellach sydd wedi dyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion perthnasol megis cofrestrau a manylion y plant. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn gyson ac nid yw'r amseroedd a gofnodir ar gyfer presenoldeb y plant bob amser yn gywir. Er nad oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach ar unwaith, mae'n faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben ar waith, sydd wedi cael ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad. Weithiau, nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn rhedeg ei gwasanaeth yn unol â'i datganiad o ddiben. Er enghraifft, mae'r datganiad o ddiben yn nodi nad yw byth yn gofalu am fwy na 3 phlentyn dan 5 oed yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Er nad oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach ar unwaith, mae'n faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Yn dilyn yr arolygiad, mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater ac wedi anfon y manylion i AGC.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yn bwysig iawn i'r gwarchodwr plant, ac mae'n rhedeg ei gwasanaeth yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn anfon ffotograffau at y rhieni yn rheolaidd o'r plant yn chwarae a'r hyn y maent wedi'u creu. Mae hefyd yn trafod gweithgareddau a llesiant y plant â'r rhieni ar lafar. Mae'r gwarchodwr plant wedi cael cydsyniad y rhieni ar gyfer nifer o weithgareddau, megis mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno a rhoi paracetamol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir a'u bod yn teimlo bod eu plant wedi setlo'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar y rhieni ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddiwrnod eu plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cynnal adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi ysgrifennu adroddiad yn seiliedig ar yr adolygiad. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn dangos sut mae wedi gweithredu ar adborth gan rieni na'r blaenoriaethau i'w datblygu yn y dyfodol.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cadw cofnodion o'r cynnydd datblygiadol y mae'r plant cyn ysgol yn ei wneud a'r cynlluniau ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad;

A2. Trefnu i fynd ar gwrs hyfforddi ar amddiffyn plant;

A3. Datblygu'r asesiadau risg ymhellach;

A4. Llunio adroddiad mwy ystyrlon ar ansawdd y gofal;

A5. Adolygu polisïau'n flynyddol er mwyn nodi'r holl newidiadau;

A6. Darllen dogfen y GIG ar Atal Heintiau ar gyfer Gwarchodwyr Plant a Meithrinfeydd.

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** | |
|---|---|
| Staffio | Rheoliad 27a |

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Cofnodion | Rheoliad 30 |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/10/2021